**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 14-01(P3)**

**Dyddiad: 14 Tachwedd 2001**
**Amser: 14:00 tan 17:30**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**

**Teitl: Adolygiad Ynni - braslun o'r rhaglen ar gyfer y misoedd nesaf**

**Diben y papur**

1. Rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar gyfarfod 6 Tachwedd y Grwp Cyfeirio ac ystyried sut i fwrw ymlaen â'r Adolygiad.

**Cefndir**

2. Amgaeir nodyn o gyfarfod y Grwp Cyfeirio yn Atodiad A. Mae'n dangos pwy oedd yn bresennol yn y drafodaeth, y prif faterion a drafodwyd a'r casgliadau a gafwyd. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion a'r Ymgynghorydd Arbenigol i drafod y rhaglen fanwl a orffennodd drwy argymell y rhaglen isod.

**Yr Agwedd Gyffredinol**

3. Y farn gyffredinol yw nad astudio 'cyflenwad a galw' cyffredinol yw'r ffordd orau o fynd ati i gynnal yr Adolygiad ond yn hytrach edrych ar feysydd allweddol penodol i'w datblygu. Nodwyd y meysydd allweddol canlynol i ddechrau:

Ynni adnewyddadwy/cynllunio;

Effeithlonrwydd Ynni, gan gynnwys tlodi tanwydd;

Gwres ac Ynni Cyfun

Ffactorau Sy'n Llywio'r Economi.

4. Gall meysydd i'w hastudio'n ddiweddarach gynnwys: diogelu cyflenwadau, tanwyddau ffosil, ynni niwclear ac isadeiledd.

**Cynigion ar gyfer y 3-4 mis nesaf**

5. Cynigir y dylid cychwyn ar yr astudiaeth drwy ystyried papur ar gynhesu byd-eang gan gorff

awdurdodol megis y Panel Rhyngwladol ar gyfer Cynhesu Byd-eang. Ymddengys y byddai hwn yn gefndir hanfodol i'r astudiaeth yn gyffredinol.

6. Mae'n amlwg mai'r brif flaenoriaeth ymhlith y pynciau uchod yw ynni adnewyddadwy a chynigir gwahodd *AEA Technology*, sy'n ymgynghorydd ar amrywiaeth eang o faterion ynni, i gyflwyno papur cefndirol.

7. Gall y Pwyllgor wahodd cynrychiolwyr o'r prif ffynonellau o ynni adnewyddadwy i'r cyfarfod nesaf: pwer gwynt, pwer tonnau a biomas. A chynnal trafodaeth â chynrychiolwyr o Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r WLGA i drafod y materion amgylcheddol a chynllunio sydd angen eu hystyried.

8. Ar ôl y trafodaethau hyn, cynigir y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad (byr) ar y mater hwn, fel rhagflas i broses ymgynghori ehangach o bosibl.

9. Tra bydd y broses ymgynghori hon ar y gweill, gallai'r Pwyllgor symud i ystyried effeithlonrwydd ynni. Gall hyn gychwyn â phapur cefndirol a thrafodaeth - â chynrychiolwyr Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni o bosibl. Byddai hyn yn debygol o arwain at faterion ynghylch defnyddio effeithlonrwydd ynni wrth adeiladu a chyda chynnyrch defnyddwyr a gall fod yn briodol i barhau â hyn drwy gynnal trafodaeth â chynrychiolwyr o'r buddiannau masnachol. Bydd gofyn i'r rhain gynnwys gweithgynhyrchu - ond gellir hefyd ei ymestyn i gynnwys materion caffael.

**Materion eraill**

10. Cynigir hefyd, fel y nododd nifer o Aelodau, y dylai'r Adolygiad edrych ar anghenion ynni Cymru yn 2020 yn hytrach nag yn 2010 ac anelu at ystyried datblygiadau y tu hwnt i hynny. Amgaeir yr amodau gorchwyl diwygiedig yn Atodiad B.

11. Hwyrach y byddai'r Pwyllgor hefyd am dderbyn adroddiad ar adeg addas, gan yr Ymgynghorydd Arbenigol o bosibl, ar Adolygiad Ynni'r Uned Perfformiad ac Arloesi.

**Amseriad**

12. Dyma amserlen bosibl ar sail y cyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd:

| | |
|---|---|
| 28 Tachwedd | Cynhesu byd-eang |
| 12 Rhagfyr | Cefndir ynni adnewyddadwy |
| 16 Ionawr | Ffynonellau adnewyddadwy: pwer gwynt, tonnau a biomas; Materion ehangach; Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r WLGA |

| | |
|---|---|
| 30 Ionawr | Cefndir effeithlonrwydd ynni: |
| | Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a'r Ymddiredolaeth Garbon |
| 13 Chwefror | Ystyried adroddiad drafft ar ynni adnewyddadwy. |
| | Adroddiad PIU (os yw ar gael) |
| 6 Mawrth | Ystyried adroddiad terfynol ar ynni adnewyddadwy i ymgynghori arno |
| | Cynrychiolwyr gweithgynhyrchu a chaffael (effeithlonrwydd ynni) |
| 20 Mawrth | *(y cyfarfod olaf cyn gwyliau'r Pasg)* |

**Cyfarfodydd ychwanegol**

13. Mae agendâu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd o hyd yn llawn a bydd gwaith yr Adolygiad yn rhoi pwysau ychwanegol arno. Bydd yr Aelodau'n falch o weld fod 2 slot wedi'u neilltuo yn rhaglen y Pwyllgor Datblygu Economaidd y tymor nesaf i gynnal cyfarfodydd ychwanegol, yn ôl yr angen - 10 Ionawr a 7 Chwefror. Gellir defnyddio'r rhain fel y gwêl y Pwyllgor orau i gynnal trafodaeth anffurfiol ond bydd angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i gynnal cyfarfod ffurfiol. Yn ddelfrydol dylai aelodau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gytuno'n unfrydol ar hyn. Gan ein bod yn debygol o fod o dan bwysau yn ddiweddarach yn y tymor, byddai'n werth ystyried defnyddio'r slot 10 Ionawr i gynnal y drafodaeth a nodwyd uchod o dan 16 Ionawr gan ei bod yn debygol o fod yn eitem eithaf hir (yn nhermau cyfarfodydd arferol y Pwyllgor Datblygu Economaidd). O gofio pa mor fyr yw'r tymor, hwyrach y bydd yr Aelodau am gael cymeradwyaeth y Pwyllgor Busnes i ddefnyddio'r ddau sesiwn ar gyfer yr Adolygiad.

**Camau i'w Cymryd**

14. Gofynnir i aelodau;

    a. Wneud sylwadau ar y rhaglen arfaethedig;
    b. Nodi a oes ganddynt unrhyw safbwyntiau ar y cyrff a wahoddir i roi tystiolaeth;
    c. Nodi a ydynt am ddefnyddio slotiau 10 Ionawr a 7 Chwefror y Pwyllgor i gynnal cyfarfodydd ychwanegol ar gyfer yr Adolygiad;
    d. Cytuno ar y newidiadau i Gylch Gorchwyl yr Adolygiad.

15. Waeth beth yw'r penderfyniad ar c) gofynnir i'r Aelodau gadw dau slot yn rhydd ar gyfer busnes y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Tachwedd 2001**

-----------------------------7d128b32ae70302 Content-Disposition: form-data; name="add_id_1"